Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Cylchdaith Foel Offrwm

**CYMEDROL**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 4km (2.4 milltir)
- Hyd: 1½ awr
- Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru




1

Croeswch y ffordd ym mhen uchaf y maes parcio yn ofalus ac yna troi i'r dde ar lwybr gro sy'n codi drwy'r coed at giât bren. Mae'r llwybr yn dal i godi am ychydig ond wedyn mae'n eithaf gwastad.




2

Dilynwch y llwybr drwy'r coed ffawydd a derw trawiadol gan sylwi ar hen blas Nannau tua'r gorllewin. Ar ôl hanner milltir fe ddowch at fainc sy'n lle delfrydol i eistedd a mwynhau'r olygfa o grib Cader Idris yn codi'n urddasol uwchlaw tref Dolgellau. Hen barc ceirw'r stad sydd oddi tanoch.




3

Parhewch ar droed gan ddringo'r grisiau derw yn y chwarel fach ac ymlwybro drwy ddwy giât arall nes cyrraedd wyneb deheuol y Foel â'i goed criafol a drain gwynion. Efallai y gwelwch felyn yr eithin yn y rhan hon.




4

Pan gyrhaeddwch y blanhigfa o goed pîn, dilynwch y ffens i'r gogledd. Byddwch yn croesi ardal wlypach ar lwybr o gerrig bras. Wedi pasio'r coed, fe ddaw hen losgfynydd Rhobell Fawr i'r golwg, a phentref Llanfachreth yn y pant islaw. Mae ceirw i'w gweld weithiau yn y rhan hon os byddwch yn ddigon tawel.



5

Byddwch yn awr yn anelu'n ôl am y maes parcio. I'r rhai egnïol, mae llwybr i gopa'r Foel ar eich ochr chwith â charreg yn nodi'r man cychwyn. Mae mainc wedi ei gosod hanner ffordd i'r copa lle gallwch gael eich gwynt ac edrych draw ar y Garn a'r Rhinogydd tua'r môr. Ar dywydd clir, mae'r Wyddfa i'w weld yn amlwg i'r gogledd.



6

Mae'r gylchdaith yn gorffen wrth fynd drwy giât bren cyn ymuno ag un o'r hen lonydd oedd yn arwain at y plas. Mewn ychydig, byddwch yn cyrraedd yn ôl at y maes parcio.